



SP MANWEB

Ffurflen Rhoi Adborth ar yr Ymgynghoriad

Prosiect SP Manweb ar gyfer Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru

Mae SP Manweb yn rheoli'r rhwydwaith trydan ar lefel 132,000 folt (132kV) ac is yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru, Swydd Gaer a rhannau o Swydd Amwythig a Glannau Mersi.

Mae SP Manweb yn datblygu cynigion i gysylltu nifer o ffermydd gwynt ar y tir i'r rhwydwaith trydan cenedlaethol. Yn benodol, rydym yn datblygu cynigion i gysylltu pedair fferm wynt o fewn Ardal Chwilio Strategol A Llywodraeth Cymru i'n his-orsaf bresennol ar y grid yn Llanelwy.

Cam cyntaf ein hymgyngoriad yw cyflwyno dewisiadau ar gyfer coridorau llwybrau llydan y gellid eu defnyddio ar gyfer llwybr cysylltiad 132kV.

Bydd yr adborth y byddwch yn ei ddarparu yn helpu i ddylanwadu ar y penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud, ochr yn ochr ag ystyriaethau technegol ac amgylcheddol. Bydd yr adborth a dderbynnir yn ystod y cam ymgynghori cyntaf hwn yn cyfrannu at ein proses o ddatblygu dewisiadau manwl ar gyfer coridorau llwybrau a ffafrir. Ar gam dau yr ymgynghoriad byddwn yn cyflwyno'r dewisiadau hyn sy'n cael eu ffafrio ac wedyn yn gofyn am adborth eto. Bydd yr adborth hwn yn helpu i lunio ein cais i'r Arolygiaeth Gynllunio - y corff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar brosiectau seilwaith mawr.

Rhowch y ffurflen hon yn y blwch derbyn adborth yn un o'n digwyddiadau neu ei hanfon i'r cyfeiriad canlynol:

FREEPOST SP MANWEB NW CONNECTION

Noder nad oes angen stamp na chyfeiriad i ddanfon post i'r cyfeiriad hwn.

Ar y cam hwn o'r ymgynghori, rydym yn benodol yn gofyn am adborth ar y canlynol:

- Tri choridor llwybr llydan 132kV o Goedwig Clocaenog i is-orsaf Llanelwy.
 - Coch
 - Gwyrdd
 - Glas
- Un coridor cyswllt a fydd yn uno'r coridor llwybr llydan Glas â'r coridorau Coch a Gwyrdd.
- Lleoliad yr is-orsaf newydd

Mae'r coridorau llwybrau llydan ar gael i'w gweld yn ein digwyddiadau ymgynghori a byddant ar gael ar wefan ein Cwmni:

www.spenergynetworks.co.uk

Mae'n werth nodi nad ydym eto wedi pennu'r dechnoleg a ffafrir ar gyfer cysylltu'r ffermydd gwynt. Rydym yn ystyried defnyddio llinellau uwchben a'r rheini'n cael eu cludo ar bolion pren neu dyrau dur ynghyd â'r posibilrwydd o ddefnyddio ceblau dan ddaear mewn ardaloedd sensitif iawn.

ADRAN UN - YNGLŶN Â'N PROSES

Byddwch cystal â darparu adborth ar y dull yr ydym yn ei ddefnyddio ar gyfer ymgynghori ar y coridorau llwybr llydan hyn a'r ffordd y mae ein cynigion yn cael eu cyflwyno.

Oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn glir?

- Oedd Nac oedd

Oedd yr aelodau staff a oedd yn bresennol yn gallu ateb eich cwestiynau?

- Oeddynt Nac oeddynt

Os nad oeddynt, nodwch eich cwestiwn/cwestiynau:

Rhowch eich sylwadau yn y blwch isod

Beth allen ni ei wneud i wella ein hymgyngoriad?

Rhowch eich sylwadau yn y blwch isod

ADRAN DAU - CORIDORAU LLWYBRAU LLYDAN

Mae SP Manweb wedi nodi 3 llwybr i gysylltu ffermydd gwynt yn Ardal Chwilio Strategol A i'n his-orsaf yn Llanelwy. Ar gyfer pob un o'r dewisiadau canlynol ar gyfer coridorau llwybrau llydan, rhowch y llwybrau yn nhrefn 1-3, gydag 1 yn cyfeirio at y coridor llwybr a ffafrir fwyaf gennych a 3 yr un a ffafrir leiaf.

- Llwybr Coch Llwybr Gwyrdd Llwybr Glas

Os ydych chi'n teimlo nad oes dim o'r coridorau llwybrau llydan yn addas, ticiwch yma:

Rhowch eich rhesymau:

Rhowch eich sylwadau yn y blwch isod

Prosiect SP Manweb ar gyfer Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru

Llwybr Coch

O fewn y coridor Llwybr llydan Coch, a oes ardaloedd y dylen ni geisio osgoi gosod y cysylltiad ynddynt?

Oes Nac oes

Os ateboch OES, nodwch ymhle a pham

Llwybr Gwyrdd

O fewn y coridor Llwybr llydan Gwyrdd, a oes ardaloedd y dylen ni geisio osgoi gosod y cysylltiad ynddynt?

Oes Nac oes

Os ateboch OES, nodwch ymhle a pham

Llwybr Glas

O fewn y coridor Llwybr llydan Glas, a oes ardaloedd y dylen ni geisio osgoi gosod y cysylltiad ynddynt?

Oes Nac oes

Os ateboch OES, nodwch ymhle a pham

Is-orsaf

Oes gennych chi sylwadau i'w gwneud am leoliad yr is-orsaf ym Mrenig?



ADRAN TRI - ADBORTH ARALL

Yn eich barn chi, a oes unrhyw ffactorau eraill y dylen ni eu hystyried yn ystod y gwaith o gynllunio'r cysylltiad

Rhowch eich sylwadau yn y blwch isod

Pa fesurau gwella eraill ddylen ni eu rhoi ar waith fel rhan o'r prosiect?

A fyddech yn defnyddio 1-4 i'w rhoi yn eu trefn o ran pwysigrwydd gydag 1 y mwyaf pwysig.

- Gwella llwybrau troed
- Plannu a thirlunio
- Mesurau gwarchod natur
- Nawdd cymunedol
- Arall (noder)

Rhowch eich manylion os gwelwch yn dda yn y blwch isod:

Teitl (Mr, Ms, Mrs):

Enw cyntaf:

Cyfenw:

Corff (os yw'n berthnasol):

Cyfeiriad:

Cod post:

Ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Bydd eich manylion yn cael eu cadw yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

*Felly, efallai y bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu cyflwyno'n rhannol neu yn eu cyfanrwydd i'r Arolygiaeth Gynllunio gan gynnwys enwau a chyfeiriadau a ddarparwyd. Os **nad** ydych am i'ch manylion personol gael eu trosglwyddo, ticiwch y blwch.*

Ticiwch yma os hoffech chi dderbyn copïau o'n cylchlythyr yn y dyfodol.

Ticiwch yma os hoffech chi dderbyn diweddariadau electronig ar yr e-bost.

Diolch i chi am roi o'ch amser i lenwi'r ffurflen hon.